Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad:
**11 Ionawr 2012**

Amser:
**09:45**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:


**Llinos Dafydd**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8403
PwyllgorIGC@cymru.gov.uk


## Agenda

**1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**

**2. Ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn - trafod amserlen yr ymchwiliad a phenodi cynghorydd arbenigol (09.45 - 10.15)**
HSC(4)-01-12 papur 1a - Amserlen yr ymchwiliad
HSC(4)-01-12 papur 1b - Penodi cynghorydd arbennigol

**3. Y Bil Drafft ynghylch Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) - trafod y dull o ystyried y Bil drafft (10.15 - 10.30)**
HSC(4)-01-12 papur 2

**4. Ymchwiliad i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru - tystiolaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (10.30 - 11.30)**
HSC(4)-01-12 papur 3
Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Dr Gwyn Thomas, y Prif Swyddog Gwybodaeth
Andrew Evans, Uwch-gynghorydd Polisi
Roger Walker, y Prif Gynghorydd Fferyllol

**5. Papurau i'w nodi** (Tudalennau 1 - 2)
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr
HSC(4)-13-11 cofnodion

**Ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn - llythyr gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol**
HSC(4)-01-13 papur 4

**Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol - rhoi'r pecyn gwella camau cyntaf ar waith**
HSC(4)-01-12 papur 5

**Ymchwiliad i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru - tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol**

Llythyr gan y Cadeirydd at y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol a Fferylliaeth Gymunedol Cymru
HSC(4)-01-12 papur 6

Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol
HSC(4)-01-12 papur 7

Fferylliaeth Gymunedol Cymru
HSC(4)-01-12 papur 8

Y Gymdeithas Cynllunio Teulu - gwybodaeth yn dilyn y sesiwn tystiolaeth lafar ar 16 Tachwedd
HSC(4)-01-12 papur 9

# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**HSC(4)-01-12 Papur 1a**

**Ymchwiliad i Ofal Preswyl i Bobl hŷn - Amserlen a themâu allweddol**

**At:** Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Gan:** Y Gwasanaeth Pwyllgorau

**Dyddiad:** Ionawr 2012

## Diben

1. Mae'r papur hwn yn cynnig amserlen amlinellol ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ofal preswyl i bobl hŷn.

## Cefndir

2. O gofio cwmpas eang yr ymchwiliad, cytunodd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol ystyried cynllun gwaith i fwrw ymlaen â chasglu tystiolaeth lafar. Cytunwyd dull o weithredu ar 8 Rhagfyr 2011 (Papur: HSC(4)-13-11 papur 2)

3. I sicrhau bod y Pwyllgor yn ymdrin â'r holl faterion a restrir yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad, cytunodd y Pwyllgor i gasglu tystiolaeth lafar yn unol â dwy egwyddor:
   (i) Sesiynau tystiolaeth lafar i'w trefnu ar sail grwpiau buddiant; a
   (ii) Dewis themâu penodol, fel y nodir yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad, i'r gwahanol Aelodau ymdrin â nhw yn ystod yr ymchwiliad.

## Amserlen

4. I sicrhau bod y Pwyllgor yn ystyried amrywiaeth eang o safbwyntiau wrth gynnal yr ymchwiliad, cytunwyd y byddai tystion yn cael eu gwahodd i ddod i'r Pwyllgor ar sail y grŵp buddiant y maent yn perthyn iddo. Atodir amserlen sesiynau drafft a rhestr o dystion posib yn Atodiad A, a seilir gan fwyaf ar y dystiolaeth lafar a dderbyniwyd hyd yma. Efallai yr hoffai Aelodau awgrymu tystion ychwanegol neu wahanol.

## Rhannu themâu allweddol ymhlith yr Aelodau

5. I sicrhau bod y Pwyllgor yn ymdrin â phob agwedd ar yr ymchwiliad hwn, cytunwyd y byddai aelod(au) penodol o'r Pwyllgor yn gyfrifol am

bob un o'r pwyntiau bwled a restrir yn y cylch gorchwyl (hynny yw, pob thema allweddol).

6. Yn ymarferol, byddai hyn yn golygu y byddai'r Pwyllgor yn gofyn i Aelod A ac Aelod B ganolbwyntio ar gasglu gwybodaeth yn ymwneud â'r pwynt bwled cyntaf yn y cylch gorchwyl drwy gydol yr ymchwiliad; byddai Aelod C ar y llaw arall yn gyfrifol am faterion yn ymwneud â phwynt bwled dau etc.

   *Ni fyddai hyn yn atal yr Aelodau mewn unrhyw ffordd rhag gofyn cwestiynau am bynciau oddi allan i'w themâu penodol nhw, ond byddai'n sicrhau bod pob thema'n cael ei hystyried, mewn perthynas â'i gilydd.*

7. Atodir cylch gorchwyl yr ymchwiliad (h.y. rhestr o'r themâu allweddol) yn Atodiad B.

**Y cynnig**

8. Gwahoddir y Pwyllgor i:

   – ystyried a chytuno amserlen drafft y dysiolaeth lafar a'r tystion a awgrymir (Atodiad A);

   – ystyried a chytuno pa Aelodau fydd yn arwain ar bob un o'r themâu allweddol a nodir yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad (Atodiad B).

## ATODIAD A

**Amserlen tystiolaeth lafar yr ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn**

Cynigir bod y seisynau isod yn cael eu hamserlenni rhwng Chwefror a Gorffennaf 2012. Fe fydd cyfleuon ar gyfer gwaith arall y Pwyllgor hefyd yn cael eu hamserlenni yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys amser i Aelodau ymgymryd â gwaith sy'n ennyn diddordeb y cyhoedd yn yr ymchwiliad hwn.

**Sesiwn 1: Cyflwyno'r cefndir**

- Arbenigwr wedi'i apwyntio gan y Pwyllgor
- Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth / Canolfan Bolisi ar Heneiddio / Sefydliad Joseph Rowntree
- OPAN Cymru (Ymchwil Heneiddio Cymru)

**Sesiwn 2: Defnyddwyr, eu teuluoedd a'u gofalwyr**

- Fforymau pobl hŷn e.e. Fforwm Pensiynwyr Cymru
- Grwpiau Age Cymru
- Grwpiau gofalwyr a sefydliadau sy'n eu cynrhychioli e.e. Cynghrair Gofalwyr Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

**Sesiwn 3: Cyrff yn y sector cyhoeddus**

- Awdurdodau lleol / Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
- Byrddau Iechyd Lleol / Conffederasiwn y GIG
- Yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol / Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd

**Sesiwn 4: Darparwyr yn y sector preifat**

- Fforwm Gofal Cymru
- Cymdeithas Gofal Cymdeithasol
- Darparwr gofal mawr e.e BUPA

**Sesiwn 5: Cyrff a darparwyr yn y trydydd sector**

- Gofal Croesffyrdd
- Age Cymru / Cynghrair Henoed Cymru
- Cartrefi Cymunedol Cymru / Care and Repair Cymru
- Canolfan Cydweithredol Cymru

**Sesiwn 6: Cyrff proffesiynol a chyrff staff**

- Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yng Nghymru
- UNSAIN / Fforwm Gwasanaethau Cymdeithasol Unsain Cymru
- Proffesiynwyr iechyd e.e. Coleg Brenhinol y Seiciatryddion
- Coleg Therapyddion Galwedigaethol

**Sesiwn 7: Rheoleiddiwyr ac arolygwyr**

- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru / Arolygiaeth Iechyd Cymru
- Cyngor Gofal Cymru

**Sesiwn 8: Llywodraeth Cymru**

- Y Dirprwy Weinidog dros Blant a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Prif swyddogion

**ATODIAD B**

**Cylch gorchwyl yr ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn.**

Dyma gylch gorchwyl yr ymchwiliad, fel y'i cytunwyd gan y Pwyllgor ar 20 Hydref 2011:

Ymchwilio i ddarpariaeth gofal preswyl yng Nghymru a'r ffyrdd y gall fodloni anghenion presennol pobl hŷn a'u hanghenion ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys:

- y broses a ddilynir gan bobl hŷn wrth iddynt fynd i ofal preswyl ac argaeledd a hygyrchedd gwasanaethau amgen yn y gymuned, gan gynnwys gwasanaethau ailalluogi a gofal yn y cartref.

- gallu'r sector gofal preswyl i fodloni'r galw am wasanaethau gan bobl hŷn o ran adnoddau staffio, gan gynnwys y sgiliau sydd gan staff a'r hyfforddiant sydd ar gael iddynt, nifer y lleoedd a'r cyfleusterau, a lefel yr adnoddau.

- ansawdd gwasanaethau gofal preswyl a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd; effeithiolrwydd gwasanaethau o ran bodloni'r amrywiol anghenion ymhlith pobl hŷn; a rheolaeth ar gau cartrefi gofal.

- effeithiolrwydd trefniadau rheoleiddio ac archwilio gofal preswyl, gan gynnwys y cwmpas ar gyfer craffu mwy ar hyfywdra ariannol darparwyr gwasanaethau.

- y modelau gofal newydd sy'n dod i'r amlwg.

- y cydbwysedd rhwng darpariaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector annibynnol, a modelau ariannu, rheoli a pherchnogaeth amgen, fel y rheini a gynigir gan y sector gydweithredol a chydfuddiannol, y trydydd sector, a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**HSC(4)-01-12 papur 1b**

**Ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn – Penodi cynghorydd arbenigol**

| | |
|---|---|
| **At:** | Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| **Oddi wrth:** | Gwasanaeth y Pwyllgorau |
| **Dyddiad:** | Ionawr 2012 |

## CYNGHORYDD ARBENIGOL AR GYFER YR YMCHWILIAD I OFAL PRESWYL I BOBL HŶN — MANYLEB Y SWYDD

### Diben

1. Ar 8 Rhagfyr, cytunodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i benodi cynghorydd arbenigol ar gyfer ei ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn.

2. Mae Atodiad A i'r papur hwn yn amlinellu manyleb ar gyfer swydd cynghorydd arbenigol. Mae Atodiad B yn rhestru'r ymgeiswyr posibl ar gyfer ymgymryd â'r gwaith hwn.

### Cefndir

3. Mae Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn caniatáu i bwyllgorau benodi pobl i roi cyngor arbenigol iddynt.[1] I hwyluso hyn, mae'r Cynulliad yn cynnig y cyfle i unrhyw arbenigwr neu ymchwilydd gofrestru fel cynghorydd arbenigol allanol ar gyfer contractau ymchwil tymor byr drwy'r wefan.

4. Diben y cyngor arbenigol yw:
   - ategu arbenigedd mewnol Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru; ac
   - ychwanegu gwerth at ystyriaeth Pwyllgor o unrhyw faes penodol.

   Cyflawnir hyn drwy ddarparu ffynhonnell ychwanegol o wybodaeth, cyngor a chapasiti dadansoddol i bwyllgor gan barti allanol sydd ag arbenigedd penodol ac wedi'i brofi yn y maes y mae'r pwyllgor yn ei ystyried.

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheol Sefydlog 17.55 [fel ar 15 Rhagfyr 2011]

**Manyleb y swydd**

5. Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael y cymorth arbenigol ychwanegol sydd ei angen arno, drafftiwyd manyleb sy'n nodi'r prif dasgau y dylai'r cynghorydd arbenigol eu cyflawni. Atodir y fanyleb yn Atodiad A.

6. Mae'n rhaid i'r Pwyllgor gytuno ar y fanyleb hon cyn penodi cynghorydd arbenigol er mwyn sicrhau:
   - bod yr unigolyn iawn yn cael ei ddewis i ymgymryd â'r gwaith; a
   - bod gan yr ymgeisydd llwyddiannus ddealltwriaeth glir o'r rôl y mae disgwyl iddo ei chyflawni mewn perthynas â'r ymchwiliad a'r ymrwymiad cysylltiedig o ran amser.

**Yr ymgeiswyr**

7. Mae ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor, ar y cyd â'r Cadeirydd, wedi nodi dau ymgeisydd posibl i fod yn gynghorydd arbenigol, a hynny'n seiliedig ar y fanyleb yn Atodiad A.

8. Trafodwyd y cyfle i fod yn ymgeisydd gyda'r Athro Judith Phillips (Athro Gerontoleg a Gwaith Cymdeithasol, Canolfan Heneiddio Arloesol, Prifysgol Abertawe), yr Athro Ann Netten (Athro Lles Cymdeithasol a Chyfarwyddwraig yr Uned Ymchwil ar Wasanaethau Cymdeithasol Personol ym Mhrifysgol Caint) a'r Athro Martin Knapp (Athro Polisi Cymdeithasol a Chyfarwyddwr yr Uned Ymchwil ar Wasanaethau Cymdeithasol Personol yn y London School of Economics). Yn sgil yr ymrwymiad amser a fyddai ei angen ar gyfer y gwaith hwn, nid oedd modd iddynt gynnig eu henwau fel ymgeiswyr posib.

9. Petai'r Pwyllgor am newid y fanyleb neu'r rhestr o ymgeiswyr posib, gellid ceisio dod o hyd i ymgeiswyr eraill. Fodd bynnag, dylai Aelodau fod yn ymwybodol y gallai hynny arwain at oedi cyn penodi cynghorydd ar gyfer yr ymchwiliad ac y gallai gyfyngu ar ei (g)allu i gyflawni rhai o'r tasgau a restrir yn y fanyleb.

10. Mae gwybodaeth am bob ymgeisydd ar gael yn Atodiad B.

**Penderfyniad**

11. Gwahoddir y Pwyllgor i:

- ystyried a chytuno ar y fanyleb ar gyfer swydd cynghorydd arbenigol ar gyfer ei ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn (gweler Atodiad A); ac

- ystyried yr ymgeiswyr a awgrymir (gweler Atodiad B), penodi cynghorydd ac awgrymu rhywun wrth gefn.

**ATODIAD A — MANYLEB Y SWYDD**

Bydd gofyn i'r unigolyn a gaiff ei benodi'n gynghorydd arbenigol:

- **Roi un sesiwn friffio gyflwyniadol i'r Pwyllgor ddydd Iau 2 Chwefror 2012**
  *Ymrwymiad amser disgwyliedig (paratoi a chyflwyno): 1 diwrnod*

  Diben y sesiwn gyflwyniadol hon fydd rhoi cyflwyniad i'r ymchwiliad a'i gylch gorchwyl a thrafod y dystiolaeth ysgrifenedig sydd wedi dod i law.

- **Gweithio gydag ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor drwy gydol yr ymchwiliad i baratoi ar gyfer (ac, yn ôl y gofyn, fynychu) sesiynau tystiolaeth lafar** *Ymrwymiad amser disgwyliedig (gan gynnwys yr holl sesiynau tystiolaeth): 5 diwrnod*

  Bydd hyn yn cynnwys cynorthwyo i baratoi – neu adolygu – briff cefndir a meysydd posibl ar gyfer cwestiynau ar y dyddiadau a gytunir gan y Pwyllgor.

- **Gweithio gydag ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor drwy gydol yr ymchwiliad er mwyn nodi'r themâu sy'n codi o'r ymchwiliad**
  *Ymrwymiad amser disgwyliedig: 5 diwrnod*

  Mae nodi'r themâu sy'n codi o ymchwiliad, yn enwedig cyn cynnal unrhyw sesiwn graffu gyda'r Gweinidog perthnasol ar ddiwedd yr ymchwiliad, yn allweddol er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn dwyn y Llywodraeth i gyfrif ar y prif faterion sy'n deillio o'i waith. Bydd disgwyl i'r cynghorydd arbenigol weithio gydag ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor i nodi a chrynhoi'r prif faterion sy'n deillio o'r sesiynau tystiolaeth lafar.

- **Rhoi sylwadau ar – a chyfrannu at – bapur yn nodi prif faterion yr ymchwiliad wrth i'r ymchwiliad dynnu tua'r terfyn**
  *Ymrwymiad amser disgwyliedig: 1 diwrnod*

  Mae nodi prif faterion yr ymchwiliad yn sail i'r gwaith o ddrafftio adroddiad terfynol, casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor. Bydd disgwyl i'r cynghorydd arbenigol ddefnyddio'i arbenigedd i gynorthwyo'r Pwyllgor i grynhoi'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad yn themâu clir a phendant ynghyd â nodi materion ar gyfer craffu a / neu adroddiad pellach.

- **Adolygu a rhoi sylwadau ar adroddiad terfynol drafft y Pwyllgor, gan gynnwys prif gasgliadau ac argymhellion y Pwyllgor**
  *Ymrwymiad amser disgwyliedig: 1 diwrnod*

  Un o brif arfau pwyllgorau'r Cynulliad yw'r gallu i gyflwyno adroddiad ar ymchwiliad. Disgwylir i'r Llywodraeth ymateb i bob adroddiad Pwyllgor ac, yn wir, mae'n ymateb i bob adroddiad – oherwydd hynny, mae'n rhaid i gynnwys, casgliadau ac argymhellion adroddiad fod yn ddigon cadarn a dylanwadol i sicrhau canlyniad mor gadarnhaol â phosibl i'r ymchwiliad.

- **Rhoi cyngor ychwanegol i ysgrifenyddiaeth a Chadeirydd y Pwyllgor yn ôl y gofyn**
  *Cytunir ar yr ymrwymiad amser yn ôl yr angen, ac o fewn y telerau sydd wedi'u derbyn ar gyfer y penodiad.*

  Trafodir a chytunir ar hyn yn ôl yr angen rhwng ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor a'r cynghorydd arbenigol a gaiff ei benodi.

## ATODIAD B — YR YMGEISWYR

**Dr Diane Seddon**
*Uwch Gymrawd Ymchwil, Canolfan Ymchwil Gymhwysol a Gwyddorau Gwerthuso (CYGGG), Prifysgol Bangor*

Mae diddordebau ymchwil Dr Seddon yn cynnwys: gofalwyr a rhoi gofal; asesu a rheoli gofal; dementia; y berthynas rhwng iechyd a gofal cymdeithasol; a'r ddarpariaeth o gartrefi gofal preswyl a nyrsio. Mae wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu rhaglen ymchwil lwyddiannus mewn perthynas â gofalwyr, sydd wedi denu grantiau ymchwil gan ystod eang o gyrff ariannu, gan gynnwys yr Adran Iechyd, Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr. Mae Diane wedi cynghori ar ddatblygu polisi cenedlaethol, gan gynnwys bod yn gynghorydd arbenigol ar ofal cartref i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae hefyd wedi arwain adolygiadau o roi polisïau cenedlaethol ar waith, gan gynnwys gwerthuso strategaethau gofalwyr cenedlaethol yn Lloegr i'r Adran Iechyd ac yng Nghymru i Lywodraeth y Cynulliad, yn ogystal â'r gwerthusiad Cymru gyfan o'r Broses Asesu Unedig.

*Rolau eraill:*

- Cydlynydd modiwl, Gwerthuso Ymchwil ac Ymarfer Ymchwil ar sail Tystiolaeth, BA Gwaith Cymdeithasol, Prifysgol Bangor.
- Cadeirydd ac Ymddiriedolwr, Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol i Ofalwyr, Gwasanaeth Allgymorth i Ofalwyr, Gogledd Cymru.
- Cynrychiolydd adran, y Coleg Bancio, Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Gwyddorau Cymdeithasol a'r Gyfraith, Prifysgol Bangor.
- Cynghorydd arbenigol, Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, Tŷ'r Cyffredin (2009).
- Aelod:
  - Grŵp Llywio Gweithredol, NEURODEM Cymru.
  - Grŵp Datblygu Ymchwil Gofal Cymdeithasol a Thai Cymru.
  - Pwyllgor Grantiau Ymchwil Gogledd Cymru.

*Bywgraffiad y Brifysgol:*

http://www.bangor.ac.uk/so/staff/seddon.php.cy?

**Dr Catherine Robinson**
*Cyfarwyddwr, Canolfan Ymchwil Gymhwysol a Gwyddorau Gwerthuso (CYGGG), Prifysgol Bangor*

Mae diddordebau ymchwil Dr Robinson yn cynnwys: polisi gofal cymdeithasol a gofal iechyd; gweithredu polisïau a datblygu ymarfer; asesu, rheoli gofal a darparu gwasanaethau; y berthynas rhwng gofal iechyd a gofal cymdeithasol; gofal teulu; gwerthuso.

Catherine Robinson yw Cyfarwyddwr y ganolfan sydd newydd ei sefydlu, Canolfan Ymchwil Gymhwysol a Gwyddorau Gwerthuso. Cyn hynny roedd y tîm ymchwil hwn yn rhan o Gynghrair Cymru Gyfan ar gyfer Ymchwil a Datblygiad mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (AWARD).

Mae ei phrosiectau ymchwil presennol yn cynnwys:

- *Carers for people with mental health problems: needs assessment to service provision (Robinson, C.A., Seddon, D. and Bowen, S.)*

  Mae'r astudiaeth hon yn mynd i'r afael â'r bylchau yn y ddealltwriaeth o anghenion, amgylchiadau ac anghenion cymorth gofalwyr sy'n gofalu am bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl.

- *Unified assessment in Wales: older people with complex needs and their families (Seddon, D., Robinson, C.A., Tommis, Y and Woods, R).*

  Bydd yr astudiaeth hon yn astudio'n hydredol brofiadau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr o'r broses Asesu Unedig a'r canlyniadau dilynol. Mae Rhodri Morgan yn aelod o'r tîm ymchwil hwn.

*Rolau eraill:*

- Grŵp Ymgynghorol Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007- )

  Cydweithrediad Ymchwil Clinigol Cymru, Grŵp Llywio Gweithredol (2006- )
- Cydweithrediad Iechyd Meddwl Cymru, Grŵp Llywio (2005 – )
- Rhwydwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Blant (2006 – )
- Grŵp Llywio Rhwydwaith Ymchwil Dementia ac Anhwylderau Niwroddirywiol Cymru (2006 – )
- Cyd-fwrdd Polisi Cydweithrediad Gogledd Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2005- )
- Pwyllgor Strategol a Phwyllgor Grantiau Ymchwil Gogledd Cymru (2001 – )

- Cadeirio gweithgor a gynullwyd i ystyried anghenion therapyddion lleferydd ac iaith sy’n gweithio gyda phlant ac oedolion Cymraeg eu hiaith a dwyieithog (2005).

*Bywgraffiad y Brifysgol:*

http://www.bangor.ac.uk/so/staff/robinson.php.cy?

Eitem 3

## Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**HSC(4)-01-12 papur 2**

**Y Bil Drafft ynghylch Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) – Y dull o ystyried y Bil drafft**

**Diben**

1. Mae'r papur hwn yn tynnu sylw'r pwyllgor at y Bil Drafft ynghylch Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) ac yn amlinellu'r opsiynau posibl pe byddai'r pwyllgor yn dymuno craffu ar y Bil drafft cyn deddfu.

**Cefndir**

2. Cyhoeddwyd y Bil Drafft ynghylch Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) ar gyfer ynghynghoriad 12 wythnos gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus ar 14 Rhagfyr 2011.

3. Bydd y Bil yn ei gwneud yn orfodol i fusnesau bwyd yng Nghymru arddangos gwybodaeth am eu safonau hylendid (eu sgôr hylendid bwyd) mewn safle lle mae'r wybodaeth honno'n weledol i gwsmeriaid yn rhwydd. Bydd y Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol orfodi'r cynllun gorfodol yn eu hardaloedd, a sicrhau bod y sgoriau yn cael eu harddangos yn gywir.

4. Nid yw'r mater a drafodir yn y Bil drafft yn berthnasol i gylch gwaith pwyllgor penodol. Caiff penderfyniad ar ba bwyllgor y cyfeirir y mater ato ei wneud gan y Pwyllgor Busnes unwaith i'r Bil gael ei gyflwyno'n ffurfiol.

**Trafodaeth**

*Defnyddio Biliau drafft*

5. Defnyddir Biliau drafft gan y Llywodraeth i ymgynghori â'r cyhoedd neu grŵpiau sydd â diddordeb arbennig ar gynigion deddfwriaethol penodol. Ni nodwyd dyletswydd ar bwyllgorau'r Cynulliad i ystyried neu graffu ar Filiau drafft yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad.

6. Mae Biliau drafft wedi dod yn gyffredin yn Senedd y Deyrnas Unedig yn ystod y blynyddoedd diweddar, ac mae Pwyllgor Dethol yn aml yn craffu arnynt cyn iddynt gael eu cyflwyno'n ffurfiol. Fodd bynnag, mae'r arfer hwn wedi datblygu'n rhannol oherwydd nad oes proses graffu Cyfnod 1 yn cael ei dilyn yn San Steffan, ac mae'n bosibl na fydd y cyfnod craffu gan bwyllgor hwyrach yn cynnwys Aelodau'r Pwyllgor Dethol gwreiddiol. Yn yr Alban, er bod Llywodraeth yr Alban yn ymddangos fel petai'n cyhoeddi Biliau drafft, nid yw'n ymddangos bod llawer o waith craffu arnynt gan bwyllgorau Seneddol.

7. Er y gallai ymddangos yn wrth-gynhyrchiol i'r pwyllgor beidio ag ystyried Biliau drafft, mae perygl y byddai ceisio ystyried y Bil drafft yn fanwl yn ystod y cyfnod hwn yn gallu cael effaith negyddol neu ddryslyd ar ystyriaeth gan y pwyllgor yn ystod Cyfnod 1.

8. Hefyd, gallai ymateb yn ffurfiol i ymgynghoriad gymylu rôl y pwyllgor, yn ogystal â rhoi pwysau annigonol i'w rôl ffurfiol.

*Opsiynau*

9. Yn y cyd-destun hwn, cynigir yr opsiynau a ganlyn ar gyfer gwaith y gellid ei wneud gan y pwyllgor:

i. gwneud dim – fel y nodwyd uchod, ni nodwyd dyletswydd ar bwyllgorau i graffu ar Filiau cyn deddfu yn y Rheolau Sefydlog, ac mae Cyfnod 1 yn rhoi cyfle i graffu ar y Bil a gyflwynwyd yn ffurfiol.

ii. gwahodd y Gweinidog i gyflwyno tystiolaeth i'r pwyllgor fel cefndir ar gyfer cyflwyno'r Bil yn hwyrach yn y flwyddyn; fodd bynnag, yn y cyd-destun hwn, bydd y pwyllgor yn dymuno bod yn ymwybodol o'r ohebiaeth ddiweddar rhwng y Prif Weinidog a'r Llywydd (gweler Atodiad 1) ynghylch galw ar Weinidogion i ymddangos gerbron pwyllgorau mewn perthynas â Biliau drafft.

iii. Gwahodd swyddogion y Llywodraeth i friffio'r pwyllgor ar y Bil fel modd o esbonio'r cefndir iddo a sicrhau bod y pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau er mwyn iddo fod yn barod ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1;

iv. rhoi opsiynau ii. neu iii. ar waith gyda phwyllgorau eraill sy'n debygol o fod â diddordeb yn y Bil, sef y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol a'r Pwyllgor Menter a Busnes. Gallai hyn ddigwydd ar yr un pryd neu o bosibl drwy is-bwyllgorau.

**Cam i'w gymryd**

10. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried pa un o'r opsiynau a amlinellir ym mharagraff 9 y mae'n dymuno ei ddewis mewn perthynas â'r Bil Drafft ynghylch Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru).

Y Swyddfa Deddfwriaeth
Ionawr 2012

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

**Ein cyf/Our Ref: LF/FM/5121/11**

Rosemary Butler AC
Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

17 Hydref 2011

Annwyl Rosemary

Rwyf yn ysgrifennu atoch er mwyn rhoi eglurhad o safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r ffordd mae'n trin ei hymgynghoriadau ar Bapurau Gwyn a Biliau Drafft.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymgynghori cyn cyflwyno deddfwriaeth, p'un ai ar adeg ffurfio polisi, adeg Papur Gwyn neu drwy Fil Drafft. Rydym eisoes wedi cyhoeddi Papur Gwyn mewn perthynas â'r Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion, a chyn bo hir byddwn yn cyhoeddi Papur Gwyn ar Roi Organau. Yn ddiweddarach eleni byddwn hefyd yn cyhoeddi nifer o Filiau Draft ar gyfer ymgynghori arnynt.

Tra fy mod yn ystyried mai ymgynghoriadau'r Llywodraeth yn bennaf yw Papurau Gwyn a Biliau Drafft, rwyf wedi gofyn i Weinidogion i sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn cael gwybod amdanynt cyn eu cyhoeddi drwy Ddatganiad Ysgrifenedig Gweinidogol. Serch hynny, gwrando a thrafod gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn fwy eang yw swyddogaeth yr ymgynghoriadau yma.

Byddem wrth gwrs yn croesawu unrhyw farn a all fod gan y Cynulliad mewn perthynas â'r cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriadau yma, p'un ai gan Aelodau unigol neu gan Bwyllgor o'r Cynulliad.

Serch hynny, yr amser priodol i'r Cynulliad graffu ar gynigion Gweinidogion ynghylch cynigion deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yw yn ystod y camau craffu ffurfiol, unwaith y caiff y Bil ei gyflwyno'n ffurfiol. Ni fyddem am danseilio gwaith y Cynulliad o graffu ar ddeddfwriaeth y Llywodraeth drwy beidio â dilyn y gweithdrefnau hyn.

Fel y cyfryw, ni fyddem yn disgwyl i Weinidogion gael eu galw i ymddangos gerbron Pwyllgorau yn ystod yr ymgynghoriadau yma i drafod Papur Gwyn neu Fil Drafft. Serch hynny byddem yn hapus i drefnu i swyddogion roi briffiadau technegol i Bwyllgorau ar Bapurau Gwyn neu Filiau Drafft unigol.

Mater i'r Pwyllgorau wrth gwrs yw penderfynu y ffordd orau o ystyried yr ymgynghoriadau yma, os ydynt yn dymuno gwneud hynny, ac efallai y byddant yn dymuno gwahodd rhanddeiliaid i gyflwyno tystiolaeth. Caiff safle'r Llywodraeth ei osod allan yn glir ymhob Papur Gwyn neu Fil Drafft, yr ydym yn ceisio barn rhanddeiliaid arno.

Gobeithiaf fod y llythyr hwn yn egluro safle'r Llywodraeth am y mater yma.

Carwyn Jones

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf: LF/FM/5121/11
Ein cyf: RB/AC/CJN/PO143

18 Hydref 2011

Annwyl Carwyn,

Diolch am eich llythyr ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru ar drin ymgynghoriadau ar Bapurau Gwyn a Biliau Drafft.

Mae ymgynghori ar gynigion y Llywodraeth am ddeddfwriaeth yn ddatblygiad i'w groesawu a gobeithiaf yn ddidwyll y bydd yn arwain at gyfranogaeth fwy eang yn y broses o wneud deddfwriaeth ac, yn y pen draw, at well deddfwriaeth.

Rwyf yn falch eich bod yn cydnabod pwysigrwydd gweithdrefnau craffu ffurfiol y Cynulliad ac yn rhannu'ch dymuniad na ddylai'r rhain gael eu tanseilio neu eu trechu gan y broses ymgynghori deddfwriaethol. Diolch i chi hefyd am fynegi parodrwydd y Llywodraeth i'w swyddogion ddarparu briffiau technegol i Bwyllgorau. Rwyf yn siŵr y bydd hyn yn cael ei werthfawrogi.

Byddaf yn rhannu'r pwyntiau yma gyda Chadeiryddion y pwyllgorau ac aelodau'r Pwyllgor Busnes er gwybodaeth, ond mae arnaf ofn na allaf warantu na fydd Pwyllgorau byth yn gwahodd Gweinidogion i fynychu Pwyllgorau i drafod Papurau Gwyn neu Filiau Drafft. Nid mater i mi yw arddweud wrth bwyllgorau sut y dylent fynd o gwmpas eu gwaith ac mae'n ddigon posibl y bydd achlysuron pryd y bydd hi'n berffaith briodol iddynt glywed gan Weinidogion pan fo cynigion polisi pwysig yn cael eu ffurfio. Wedi dweud hynny, cytunaf y byddai'n annymunol i Weinidogion gael eu galw gerbron Pwyllgorau fel mater o arfer yn ystod cyfnodau ymgynghori ac wedyn i fynd dros yr union dir hwnnw eto yn ystod Cam 1 o'r broses graffu.

Rosemary Butler AC, Llywydd

## Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**HSC(4)-01-12 papur 3**

**Ymchwiliad i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru - Tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

i) Mae'r papur hwn yn rhoi i'r Pwyllgor fy ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd yn y llythyr dyddiedig 16 Awst 2011 a anfonodd Mr Drakeford ataf.

### Cyflwyniad

ii) Mae 708 o fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru; mae 64% o'r rhain yn fferyllfeydd cadwyn, h.y. mae ganddynt 6 neu ragor o ganghennau ledled y wlad. Caiff 15 o fferyllfeydd cymunedol eu cynnal gan y Cynllun Fferyllfeydd Bach Hanfodol. Nod y Cynllun hwnnw yw sicrhau bod gwasanaethau fferyllol yn cael eu darparu'n briodol ar gyfer unigolion mewn ardaloedd gwledig, a fyddai fel arall yn ei chael yn anodd cyrraedd fferyllfa gymunedol.

iii) Mae nifer yr eitemau a ddosberthir gan fferyllfeydd cymunedol yn parhau i gynyddu bob blwyddyn, a chododd y nifer o 53.1 miliwn yn 2005-06 i 65.2 miliwn yn 2010-11[1].

iv) Mae buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru i gefnogi datblygu gwasanaethau fferyllfeydd cymunedol wedi cynyddu'n sylweddol ers cyflwyno'r fframwaith contract newydd ar gyfer fferylliaeth yn 2005. Mae'r gyllideb gyfredol ar gyfer 2011-12 yn £145 miliwn, sy'n gynnydd o 51% o'i gymharu â'r swm o £96 miliwn a ddarparwyd yn 2005; nid yw hynny'n cynnwys cyllid ar gyfer costau meddyginiaethau a ragnodir. Yn ogystal, mae gan Lywodraeth Cymru gyllideb ar wahân i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau[2]; yn 2010-11 defnyddiwyd £2.3 miliwn o'r gyllideb honno i gyllido gwasanaethau cyfnewid nodwyddau a gwasanaethau rhoi meddyginiaeth gyfnewid dan oruchwyliaeth i'r sawl sy'n gaeth i opiadau. Yn ogystal, caiff cyllideb o £4.3 miliwn ar gyfer fferylliaeth yn benodol ei darparu er mwyn addysgu israddedigion a hyfforddi fferyllwyr (cyfeirier at baragraffau 4.16 - 4.17).

**1. Pa mor effeithiol yw'r contract fferylliaeth gymunedol i wella cyfraniad fferylliaeth gymunedol i wasanaethau iechyd a lles.**

[1] Ystadegau Llywodraeth Cymru: Community Pharmacy Services in Wales 2010-11 (Saesneg yn unig) – 26 Hydref 2011.

[2] Y Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau (Refeniw a Chyfalaf) a ddyrennir i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol y mae Byrddau Iechyd Lleol yn bartner statudol iddynt.

1.1 Cafodd fframwaith contract newydd ar gyfer fferylliaeth gymunedol ei gyflwyno yn 2005, ac roedd yn arwydd o newid sylweddol yn rôl fferyllwyr cymunedol. Cyflwynodd y fframwaith ddatblygiadau pwysig i wasanaethau fferylliaeth gymunedol, a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Cydnabod am y tro cyntaf y cyfraniad arbennig y gall fferylliaeth gymunedol ei wneud yng nghyswllt ystod o faterion ym maes iechyd;

- Cyflwyno Adolygiadau o'r Defnydd o Feddyginiaethau i gydnabod yr arbenigedd y gall fferyllwyr cymunedol ei gyfrannu i wella'r defnydd y mae cleifion yn ei wneud o feddyginiaethau; a

- Sefydlu fframwaith archwilio a llywodraethu clinigol a gyflwynodd safonau cyffredin er mwyn hyrwyddo gwasanaethau proffesiynol, diogel ac effeithiol o safon a gweithdrefnau safonol gorfodol ar gyfer gweithredu.

1.2 Roedd y nodweddion allweddol yn cynnwys safoni gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd am y gwasanaethau a gynigir, cyflwyno arolygon bodlonrwydd cleifion, ymestyn oriau agor i leiafswm o 40 awr dros gyfnod o 5 diwrnod, ymgorffori gwasanaethau hunanofal a threfniadau cyfeirio at wasanaethau eraill yn y fframwaith contract, a chyflwyno camau gorfodol i fonitro digwyddiadau'n ymwneud â diogelwch cleifion ac adrodd yn eu cylch. Mae pob un o'r rhain wedi'u cyflawni.

1.3 I ategu dyheadau'r fframwaith contract newydd, buddsoddodd Llywodraeth Cymru yn helaeth mewn datblygu seilwaith Technoleg Gwybodaeth fferyllfeydd cymunedol.

1.4 Ers 2005 rydym wedi darparu £12.1 miliwn yn benodol i hybu gwybodeg am iechyd mewn gwasanaethau fferylliaeth gymunedol. Amcanion allweddol y buddsoddiad hwn yw hwyluso'r broses o drosglwyddo gwybodaeth rhwng darparwyr gofal iechyd a fferylliaeth gymunedol a gwella diogelwch cleifion. Mae'r nodweddion allweddol yn cynnwys:

- Mynediad diogel i rwydwaith y GIG;
- Hawliadau electronig yng nghyswllt presgripsiynau; a
- Fframwaith llywodraethu electronig i hwyluso gwaith asesu a monitro gwasanaethau ledled Cymru mewn modd cyson a chynhwysfawr.

1.5 Roedd fframwaith contract 2005 yn effeithiol o ran safoni gwasanaethau a chodi proffil rôl ehangach fferyllwyr cymunedol; hebddo mae'n amheus a fyddai unrhyw gynnydd wedi'i wneud, a byddai fferyllwyr cymunedol yn dal i ganolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar ddosbarthu meddyginiaethau heb gael eu cydnabod yn bobl a all

chwarae rôl bwysig yn yr agenda ehangach o ran iechyd. Fodd bynnag, ni fu'r cynnydd yn ddigon cyflym. I ddeffro a blaenoriaethu'r agenda ar gyfer fferylliaeth gymunedol, sefydlodd y Gweinidog blaenorol dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Grŵp Cyflawni Strategol. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys aelodau uwch o staff y GIG, a châi ei gadeirio gan Gadeirydd Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Gofynnwyd i'r Grŵp adnabod y meysydd allweddol ar gyfer newid. Mae ei argymhellion wedi eu symud ymlaen, a chânt eu hadlewyrchu yn y gwaith sydd wedi dechrau i adolygu'r Rheoliadau Gwasanaethau Fferyllol a'r newidiadau i'r fframwaith contract a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd 2011. Caiff rhagor o fanylion am y datblygiadau eu hamlinellu ym mharagraffau 3.6 – 3.9 a 6.1 – 6.2.

**2. Y graddau y mae Byrddau Iechyd Lleol wedi cymryd y cyfleoedd a ddarparwyd trwy'r contract i ymestyn gwasanaethau fferylliaeth drwy ddarparu gwasanaethau 'gwell', ac enghreifftiau o gynlluniau llwyddiannus.**

2.1 Cafodd gwasanaethau gwell eu cynnwys yn fframwaith contract 2005 i roi cyfle i gomisiynu ystod eang o wasanaethau oddi wrth fferyllwyr cymunedol, yn ogystal â gwasanaethau hanfodol craidd megis gwasanaethau dosbarthu meddyginiaethau. Bwriad y cyfle i ddarparu gwasanaethau gwell oedd galluogi Byrddau Iechyd Lleol i gyflwyno gwasanaethau ar sail asesiad o angen lleol o ran gofal iechyd, a defnyddio fferyllfeydd cymunedol pan welid mai nhw oedd y darparwyr mwyaf priodol.

2.2 Y gwasanaethau gwell a ddarperir gan amlaf gan fferyllfeydd cymunedol yw gwasanaeth cyfnewid nodwyddau, gwasanaeth rhoi meddyginiaeth gyfnewid dan oruchwyliaeth i'r sawl sy'n gaeth i opiadau, a gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu. Mae gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu, yn enwedig, wedi helpu nifer galonogol o bobl i roi'r gorau i ysmygu, fel y dangoswyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth werthuso'r gwasanaethau sydd yng Ngogledd Cymru, Powys a Merthyr Tudful.

2.3 Ym mis Ebrill 2011, lansiodd Llywodraeth Cymru y gwasanaeth gwell cenedlaethol cyntaf dan gyfarwyddyd ar gyfer atal cenhedlu hormonaidd brys. Ers cyflwyno'r gwasanaeth, mae 18,500 o unigolion wedi defnyddio'r gwasanaeth a ddarperir yn awr gan 386 o fferyllfeydd cymunedol.

2.4 Caiff data blynyddol ynghylch darparu gwasanaethau gwell ei gasglu oddi wrth Fyrddau Iechyd Lleol a'i gyhoeddi ar wefan StatsCymru Llywodraeth Cymru[3].

[3] http://wales.gov.uk/topics/statistics/?skip=1&lang=cy

2.5 Ym mis Tachwedd 2011, lansiodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gronfa ddata newydd, sef Cronfa Ddata Fferylliaeth Cymru Gyfan, i gasglu gwybodaeth am wasanaethau a ddarperir gan bob fferyllfa gymunedol yng Nghymru. Mae'r Gronfa Ddata yn sicrhau bod un ffynhonnell ganolog o wybodaeth fanwl gywir ar gael am wasanaethau fferylliaeth gymunedol. Yn y dyfodol, bydd hawliadau a anfonir yn electronig gan fferyllwyr cymunedol yn cael eu cysylltu â'r gronfa ddata hon er mwyn gwirio eu statws achredu unigol a statws achredu'r fferyllfa lle darparwyd y gwasanaeth. Bydd y Gronfa Ddata hefyd yn darparu gwybodaeth ar gyfer Galw Iechyd Cymru er mwyn diweddaru'r wybodaeth a welir gan y cyhoedd.

2.6 Ym mis Ebrill 2011, i gyd-daro â lansiad y gwasanaeth cenedlaethol dan gyfarwyddyd ar gyfer darparu dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys, cafodd y Ffurflen Hawlio ac Archwilio Electronig Genedlaethol ei lansio. Roedd y Ffurflen yn disodli hawliadau ar bapur ac yn symleiddio'r trefniadau ar gyfer fferyllwyr cymunedol wrth gyflwyno hawliadau am ddarparu gwasanaethau atal cenhedlu hormonaidd brys. Mae'r Ffurflen wedi lleihau'r baich gweinyddol ar fferyllwyr gan roi mwy o amser iddynt ganolbwyntio ar ofal cleifion. Yn bwysig iawn, am y tro cyntaf, mae'n darparu gwybodaeth gynhwysfawr am ddarpariaeth o ran gwasanaethau mewn modd amserol, a bydd yn cefnogi gwaith asesu anghenion a chynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.

2.7 I gynorthwyo Byrddau Iechyd Lleol i ddatblygu gwasanaethau gwell, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnal adolygiad llenyddiaeth i adnabod y sylfaen dystiolaeth a chynorthwyo Byrddau Iechyd Lleol i ddatblygu gwasanaethau gwell. Mae hefyd wedi bod yn gweithio gyda Byrddau Iechyd Lleol i gwblhau asesiadau o anghenion fferyllol, gan ddarparu rhagor o wybodaeth y gellir ei defnyddio i lywio gwaith cynllunio gwasanaethau.

2.8 I hybu'r broses o ddarparu gwasanaethau gwell sy'n gyson ac o safon ledled Cymru, rydym wrthi hefyd yn llunio fersiynau terfynol manylebau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu, cyfnewid nodwyddau a rhoi meddyginiaeth gyfnewid dan oruchwyliaeth i'r sawl sy'n gaeth i opiadau. Bydd y manylebau hyn yn ychwanegol at y fanyleb ar gyfer gwasanaethau atal cenhedlu hormonaidd brys sydd eisoes ar waith.

**3. Graddfa'r gwasanaethau 'uwch' a ddarperir gan fferyllfeydd cymunedol a pha mor ddigonol ydynt.**

3.1 Mae gwasanaethau uwch yn gynlluniau cenedlaethol y mae'n ofynnol cael achrediad ar eu cyfer cyn y gellir darparu'r gwasanaeth. Cyn y setliad contract yn 2011, yr Adolygiad o'r Defnydd o Feddyginiaethau oedd y prif wasanaeth uwch a ddarperid, a châi pob fferyllfa gymunedol ddarparu hyd at 400 o Adolygiadau'r flwyddyn.

3.2 Mae Adolygiad o'r Defnydd o Feddyginiaethau yn golygu adolygu'r modd y mae cleifion yn defnyddio eu meddyginiaethau, er mwyn gwella eu dealltwriaeth o sut y dylent eu cymryd, adnabod y problemau y gallent fod yn eu cael, a chynnig help i'r sawl a allai fod mewn perygl o fethu â gwneud defnydd effeithiol o'u meddyginiaethau. Yn ogystal, mae Adolygiadau o'r Defnydd o Feddyginiaethau wedi rhoi cyfle i fferyllwyr ymgysylltu'n ffurfiol â chleifion, ac maent yn darparu rôl a gydnabyddir o safbwynt cynorthwyo unigolion i ddefnyddio eu meddyginiaethau yn y modd mwyaf effeithiol.

3.3 Ceir enghreifftiau da lle caiff Adolygiadau o'r Defnydd o Feddyginiaethau eu defnyddio i helpu cleifion i reoli cyflyrau megis asthma, trwy wella'u techneg defnyddio pwmp a gwella'r modd y maent yn rheoli eu hasthma.[4] Cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru adolygiad llenyddiaeth ynghylch Adolygiadau o'r Defnydd o Feddyginiaethau ym mis Mehefin 2011, a helpodd i bennu cyfeiriad y newidiadau a wnaed yn 2011 i'r fframwaith contract.

3.4 Mae lefelau cyfranogiad wedi cynyddu o'r naill flwyddyn i'r llall, gydag 88% o fferyllfeydd cymunedol yn darparu gwasanaethau Adolygiadau o'r Defnydd o Feddyginiaethau yn 2010-11. Mae nifer yr Adolygiadau a gyflawnir wedi cynyddu hefyd ac ar gyfartaledd cynhaliwyd 208 ohonynt gan bob fferyllfa yn 2010-11.

3.5 Yn rhan o ystod o newidiadau i'r fframwaith contract, a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd 2011, cafodd y gwasanaeth Adolygiadau o'r Defnydd o Feddyginiaethau ei ddiwygio i dargedu grwpiau penodol o gleifion. Rhaid i hanner yr holl Adolygiadau a gynhelir gael eu cyflawni gyda'r grwpiau canlynol:

- Cleifion sy'n cymryd meddyginiaeth i ostwng pwysedd gwaed
- Cleifion sy'n cymryd meddyginiaethau i drin afiechyd anadlu
- Cleifion sy'n cymryd meddyginiaethau risg uchel, h.y. meddyginiaethau y gwyddys eu bod yn gysylltiedig â phroblemau'n ymwneud â diogelwch cleifion
- Cleifion y nodwyd bod perygl eu bod yn gwastraffu eu meddyginiaethau.

3.6 Mae'r grwpiau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru, a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu, i wella canlyniadau o ran iechyd ymhlith y sawl sydd ag afiechyd yn ymwneud â chylchrediad y gwaed, cefnogi'r agenda 1000 o Fywydau a Mwy yng nghyswllt meddyginiaethau risg uchel, mynd i'r afael ag afiechyd anadlu (y cyflwr y mae pobl yng Nghymru yn sôn amlaf eu bod yn dioddef ohono, ar

[4] Price A, PCA 2009: Effectiveness of MURs in Asthma – South Wales & the South West.

wahân i afiechyd yn ymwneud â chylchrediad y gwaed[5]) a chyflawni ymrwymiadau maniffesto Llywodraeth Cymru i weithio gyda fferylliaeth gymunedol. Yn ogystal, bydd yr Adolygiadau o'r Defnydd o Feddyginiaethau yn ceisio:

- Codi ymwybyddiaeth o'r risg o strôc, a hybu'r defnydd cywir o feddyginiaeth i ostwng pwysedd gwaed; a
- Lleihau'n sylweddol y meddyginiaethau a wastreffir, gan gwtogi ar y modd y gwastreffir adnoddau gwerthfawr y GIG.

Bydd yr Adolygiadau newydd o'r Defnydd o Feddyginiaethau, a fydd yn canolbwyntio ar agweddau penodol, hefyd yn cynnig cyfle i'r fferyllydd ddarparu cyngor ynghylch hunanofal, mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â ffordd o fyw, a chyfeirio cleifion at wasanaethau eraill.

3.7 Ym mis Tachwedd 2011 lansiwyd gwasanaeth uwch newydd, sef y gwasanaeth Adolygu Meddyginiaethau adeg Rhyddhau. Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i fwriadu ar gyfer cleifion sy'n cael eu rhyddhau i'r gymuned o ysbytai neu leoliadau gofal eraill. Mae'n cynnwys ymyriad ac iddo ddwy ran. Mae'r rhan gyntaf yn ei gwneud yn ofynnol i'r fferyllydd cymunedol wirio bod y meddyginiaethau a ragnodwyd yn y lleoliad gofal (e.e. yr ysbyty) yn cyd-fynd â'r rhai a gymerir gan y claf pan fydd yn dychwelyd adref. Mae'r ail ran yn adeiladu ar y gwasanaeth Adolygiadau o'r Defnydd o Feddyginiaethau cyfredol, ac mae'n darparu cyfle i'r fferyllydd drafod y modd y mae'r claf yn defnyddio ac yn deall ei feddyginiaethau.

3.8 Ceir tystiolaeth bod gwahaniaethau rhwng y meddyginiaethau a ragnodir ar gyfer unigolyn pan gaiff ei ryddhau o'r ysbyty a'r feddyginiaeth a ragnodir ar ei gyfer wedyn ym maes gofal sylfaenol. Fel rheol bydd hynny'n digwydd oherwydd problemau'n ymwneud â llif gwybodaeth amserol a manwl am ei feddyginiaethau.

Dylai cynnwys fferyllwyr cymunedol yn weithredol yn y broses hon helpu i sicrhau bod cleifion yn cael y meddyginiaethau a fwriadwyd, a dylai wella diogelwch cleifion a chanlyniadau o ran iechyd.

3.9 Bydd parhad y gwasanaeth Adolygu Meddyginiaethau adeg Rhyddhau ar ôl mis Ebrill 2013 yn amodol ar gwblhau gwerthusiad a dangos ei fod o fantais sylweddol i gleifion.

## 4. Y posibilrwydd o ddarparu rhagor o wasanaethau gan fferyllfeydd cymunedol yn ychwanegol at roi meddyginiaethau a dyfeisiau'r GIG, gan gynnwys y posibilrwydd o gael cynlluniau ar gyfer mân anhwylderau.

[5] Arolwg Iechyd Cymru 2010. Ar gael ar: http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/health2011/1105191/?skip=1&lang=cy

**Darparu gwasanaethau newydd**

4.1 Fel yr amlinellwyd uchod, cafodd gwasanaeth Adolygu Meddyginiaethau adeg Rhyddhau ei gyflwyno ym mis Tachwedd 2011 i gyd-fynd â'r gwasanaeth Adolygiadau o'r Defnydd o Feddyginiaethau a ailstrwythurwyd, sy'n rhoi mwy o bwyslais yn awr ar dargedu grwpiau penodol o unigolion sy'n cymryd meddyginiaethau. Mae'r datblygiadau hyn wedi digwydd yn dilyn cyflwyno'r Gwasanaeth Gwell Cenedlaethol cyntaf ym mis Ebrill 2011 ar gyfer darparu dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys. Yn ogystal, bwriedir cyflwyno tair manyleb ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Gwell Cenedlaethol newydd yn 2012, sef:

- Rhaglen cyfnewid nodwyddau a chwistrellau mewn fferyllfeydd cymunedol;
- Gwasanaeth rhoi meddyginiaeth gyfnewid dan oruchwyliaeth i'r sawl sy'n gaeth i opiadau, e.e. methadon; a
- Gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu.

4.2 Wrth symud ymlaen mae angen cydnabod cymhlethdod cynyddol meddyginiaethau newydd a'r patrymau triniaeth y mae'n rhaid i gleifion eu dilyn i gael budd o'r meddyginiaethau a ragnodwyd ar eu cyfer. Gall fferyllwyr cymunedol gyflawni rôl allweddol o ran cynorthwyo cleifion i gael y budd mwyaf posibl, lleihau sgil-effeithiau a lleihau'r meddyginiaethau a wastreffir. Gyda'u harbenigedd ym maes rheoli meddyginiaethau, mae angen i fferyllwyr fod wrth wraidd datblygiadau newydd o ran gwasanaethau yn y gymuned, a chymryd rhagor o gyfrifoldeb a pherchnogaeth dros gynorthwyo cleifion sydd ag anhwylderau hirdymor a phobl hŷn sy'n agored i niwed.

4.3 Ar unrhyw adeg[6] gall fferyllfa gymunedol nodweddiadol fod yn darparu meddyginiaethau i:

- 8 o bobl â cholostomi
- 20 o bobl â chanser
- 50 o bobl sydd wedi'u rhyddhau'n ddiweddar o'r ysbyty
- 50 o bobl â diabetes
- 150 o bobl ag asthma
- 500 o bobl â phwysedd gwaed uwch na'r arfer
- 600 o ofalwyr
- 750 o bensiynwyr

4.4 Mae'r bobl uchod i gyd yn cael budd o gymorth ac ymyriad gan fferyllydd cymunedol. Mae angen rhwydwaith fferyllfeydd cymunedol ar GIG Cymru, sy'n gost-effeithiol, sydd wrth wraidd y gymuned ac sy'n cynorthwyo cleifion, y cyhoedd a gofalwyr. Mae gwasanaethau

[6] Moddion i lwyddo: strategaeth ar gyfer fferylliaeth yng Nghymru. Llywodraeth Cynulliad Cymru 2002

fferylliaeth gymunedol wedi datblygu ers 2005, ac erbyn hyn maent yn darparu ystod fwy o lawer o wasanaethau na gwasanaeth dosbarthu'n unig - er bod hwnnw'n bwysig hefyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i atgyfnerthu gofal sylfaenol a chymunedol, ac mae gan fferyllwyr cymunedol gyfraniad gwerthfawr i'w wneud ochr yn ochr â meddygon teulu a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes gofal iechyd. Mae'n bwysig bod cyfraniad fferyllwyr cymunedol yn cael ei ystyried yn y cyd-destun hwn yn hytrach nag ar wahân iddo. Mae'r holl opsiynau'n cael eu harchwilio, a byddwn yn ymgynghori'n eang â gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd, ac yn bwysicach na neb, â chleifion.

**Mân anhwylderau**

4.5 Bob blwyddyn bydd nifer fawr o sesiynau ymgynghori meddygon teulu yn ymwneud ag anhwylderau y gall fferyllydd eu diagnosio, ac nad oes arnynt angen ymyriad gan feddyg teulu neu feddyginiaeth y mae'n rhaid cael presgripsiwn ar ei chyfer. Mae mân anhwylderau megis tarwden y traed, rhwymedd, peswch, dolur rhydd, y llindag, dafadennau, dolur gwddf, y llyngyren edau, llau pen, cur pen, clefyd y gwair a diffyg traul i gyd yn anhwylderau y gall fferyllydd ddarparu triniaeth ar eu cyfer.

